WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 27 Ionawr 2014 |
| Ein cyf: | HVT/2061/fgb |
| Tud: | 1 of 2 |

Annwyl Darren

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 16 Ionawr, ystyriwyd yr ohebiaeth a gafwyd rhyngof i â'r Ysgrifennydd Parhaol ar gyflwyno cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ar iechyd. Gofynnodd y Pwyllgor am nodyn yn amlinellu sut oedd rhannau eraill o'r DU yn cyflwyno newidiadau i gyllidebau o flwyddyn i flwyddyn. Rydym wedi archwilio arferion mewn rhannau eraill o'r DU ac yn cynnig y sylwadau canlynol. Dylwn ychwanegu nad ydym wedi mynd ati i sicrhau dilysrwydd y sylwadau hyn gan y llywodraethau perthnasol, gan ein bod am ymateb ar frys i gais y Pwyllgor.

Yn gyntaf, nid yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cynhyrchu cyllideb ddrafft flynyddol y gellir ei chymharu â chyllideb Llywodraeth Cymru. Mae wedi gosod cyllideb ar gyfer y cyfnod o 2011 i 2015. Bydd newidiadau i'r cynlluniau gwariant yn cael eu rheoli drwy waith monitro chwarterol ac amcangyfrifon canol blwyddyn i reoli gorwariant a thanwariant. Mae esboniad manylach ar gael yn www.dfpni.gov.uk/main-estimates. Felly, rydym wedi canolbwyntio'n fanylach ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.

Bu cyfle i edrych ar gyflwyniad Llywodraeth y DU yng Nghyllideb 2013 (Mawrth 2013). Mae Llywodraeth y DU yn defnyddio amcangyfrifiad alldro 2012-13 fel llinell sylfaen. Mae defnyddio alldro a amcangyfrifir yn debygol o roi darlun cywirach o newidiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn. Serch hynny, mae cyllideb y DU yn cael ei phennu ym mis Mawrth - yn agos i ddiwedd y flwyddyn ariannol - pan fo gan Adrannau syniad da o'u halldro tebygol. Cyhoeddir y gyllideb ddrafft yng Nghymru ym mis Hydref, pan fyddai'r alldro terfynol yn llawer llai pendant.

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

Mae cyllideb ddrafft Llywodraeth yr Alban ar gyfer 2014-15 yn cymharu newidiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn trwy ddefnyddio ffigurau cyllideb ddrafft y flwyddyn flaenorol, wedi'u diweddaru i adlewyrchu newidiadau a gytunwyd yn Neddf Cyllideb 2013 (y Ddeddf sy'n pennu cynlluniau gwariant ar gyfer 2013-14). Mae'r llinell sylfaen hon yn cyfateb i'r Gyllideb Derfynol yng Nghymru. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn darparu cymhariaeth yn y tymor hwy trwy gynnwys data alldro mor bell yn ôl â 2008-09.

I grynhoi, gallai dull llywodraeth y DU o ddefnyddio alldro a amcangyfrifir fel llinell sylfaen roi'r darlun cywiraf o newidiadau o flwyddyn i flwyddyn. Serch hynny, byddai defnyddio amcangyfrifon alldro yn anos yng Nghymru, oherwydd yr amseru. Yn yr Alban, defnyddir yr hyn sy'n cyfateb i'r Gyllideb derfynol yng Nghymru fel llinell sylfaen. Trwy ddefnyddio'r Gyllideb Atodol, mae'r gyllideb ddrafft yng Nghymru'n darparu llinell sylfaen fwy diweddar a chyfredol ar gyfer cymharu o flwyddyn i flwyddyn, nag yn yr Alban.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**